Strydoedd budron

Gosod esiampl / meddwl am eraill / dewrder

Y Fam Teresa: 1910–1997

Clamp o lorri ydi'r lorri sbwriel. Fel arfer, mae hi'n chwyrnu ar hyd ein strydoedd yn gynnar yn y bore. Bydd peiriant ar gefn y lorri yn codi'r bin a'i wagio i grombil y lorri. Yna bydd y peiriant arall yn cnoi'r sbwriel. Dro arall, bydd lorri yn mynd o gwmpas i lanhau'r strydoedd. Beth fyddem ni'n ei wneud heb y lorïau hyn? Wel, mi fyddai'n strydoedd ni'n fudur iawn hebddyn nhw. Ond mewn rhai gwledydd does yna neb yn glanhau'r strydoedd ac mae'r sbwriel ymhob man.

Ar strydoedd Calcutta, yn India, roedd gwraig ganol oed yn gorwedd. Roedd hi wedi bod yno ers dyddiau. Roedd hi'n gorwedd yng nghanol pob math o sbwriel. Papurau, tuniau a bwydydd wedi mynd yn ddrwg. Roedd yr aroglau drwg yn cario i bob man. Heidiai'r pryfed i bob twll a chornel.

Yng nghanol hyn i gyd fe orweddai'r wraig. Roedd llygod mawr wedi bwyta darn o'i throed a'r morgrug wedi dechrau cnoi ei choes. Roedd hi mewn poen mawr. Ond doedd neb yn cymryd dim sylw ohoni.

Ond, un diwrnod, daeth gwraig fechan, denau heibio mewn sari oedd yn gorchuddio ei chorff a'i phen. Penliniodd gyda'r wraig yng nghanol y sbwriel. Dechreuodd siarad efo hi. Helpodd hi i'r ysbyty. Ond roedd pawb yn yr ysbyty'n rhy brysur.

Meddai un nyrs, "Mi rydyn ni'n rhy brysur yma, ewch â hi'n ôl ar y stryd."

Roedd y meddyg o'r un farn, "Fedrwn ni wneud dim iddi, mae hi'n rhy wael i wneud dim efo hi. Mae'n siŵr y bydd hi wedi marw ymhen dyddiau."

Roedd y lleian yn y sari wen yn anhapus iawn, iawn. Gadawodd y wraig yn yr ysbyty ond bu farw, fel roedd y meddyg wedi dweud.

"Yma mi ydw i am aros," meddai'r lleian. "Ar y stryd y bydda i am weddill f'oes yn helpu pawb sydd mewn angen."

Ac felly y bu. Hi oedd y wraig a wnaeth gymaint dros bobl y strydoedd yng Nghalcutta. Y Fam Teresa oedd ei henw. Hi ddywedodd,

"Peidiwch â gadael i neb ddod atoch heb iddynt fynd oddi wrthych yn teimlo'n well ac yn hapusach. Byddwch bob amser yn garedig ac yn barod i ddangos tosturi tuag at bawb. Yn y slymiau, ni yw goleuni caredigrwydd Duw i'r tlodion. Rhowch iddyn nhw, y tlodion a'r unig, ofal ond rhowch iddyn nhw hefyd eich calon."

"Ym mhopeth, dangosais i chwi mai wrth lafurio felly y mae'n rhaid cynorthwyo'r rhai gwan, a dwyn ar gof y geiriau a lefarodd yr Arglwydd Iesu ei hun: 'Dedwyddach yw rhoi na derbyn.'"

Actau 20:35

Helpa ni, O Dduw,
i beidio edrych i lawr ar bobl eraill.
Weithiau, mi fydda i yn gwneud hyn.
Wnei di faddau i mi am hyn?
Weithiau mi fydda i'n edrych i lawr
ar blant eraill,
ar bobl eraill,
plant sydd efo mi yn yr ysgol,
plant sy'n byw yn yr un ardal.
Os gweli'n dda, wnei di faddau i mi?
Helpa fi i weld y gorau ym mhawb.
Amen.

Beth am ein hagwedd ni tuag at bobl eraill?
Agwedd tuag at

* bobl dlawd?
* bobl ar gyffuriau?
* bobl sydd ddim yn credu 'run fath â ni?
* a ddim yn byw yn yr un ffordd â ni?

Sut y dylem ni ymddwyn tuag atyn nhw?

Y Fam Teresa: 1910–1997